# Cymanfa Gyffredinol EBC yn Llandudno, 7–9 Gorffennaf

Dydd Llun nesaf, 7 Gorffennaf, fe fydd cynrychiolwyr o lysoedd ac adrannau'r eglwys yn dod ynghyd i drafod a dathlu ein gwaith, ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth.

O ran trefn y Gymanfa eleni, byddwn yn parhau fel y gwnaethom y llynedd i ddathlu ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth ar y pnawn Llun, cyn adrodd ar waith Bwrdd y Gymanfa a sefydlu ein Llywydd etholedig, Glynis Owen, ddydd Mawrth. Byddwn yn cloi ein trafodaethau a'n gweithgareddau erbyn cinio dydd Mercher. Dymunwn yn dda i Glynis ac i Aneurin wrth iddynt baratoi eu hunain ar gyfer y Gymanfa. Gwahoddwn chi i weddïo gyda ni y byddwn yn profi'r Arglwydd yn agos atom wrth i ni dreulio amser yng nghwmni ein gilydd ac wrth i ni wahodd eraill o Gymru a'r byd i ddathlu, hysbysu, annog, ac i rannu gyda ni.

Cafodd pawb ohonom a fynychodd ein cynhadledd ar adeiladau: 'Beth yw ystyr y meini hyn?' ym mis Ebrill flas ar y croeso sydd yn ein haros yng Nghapel Gloddaeth, Llandudno. Diolchwn i bawb sydd wedi bod yn paratoi yn lleol yno ac am bob paratoad gan y swyddogion a staff swyddfa'r Gymanfa er mwyn gwneud y cyfan yn bosibl. Diolch am gefnogaeth ac ymroddiad cymaint ohonoch yn lleol i hyrwyddo achos Iesu Grist yn ein dydd ninnau,

Cyflwynwn y poster hwn gyda gwahoddiad cynnes i bawb ymuno yn y cyfarfodydd cyhoeddus hyn yn Llandudno neu ar Zoom. Edrychwn ymlaen i'ch gweld chi yno.

*Nan Powell-Davies*
*Ysgrifennydd Cyffredinol EBC*



Llun: Richard Rogerson (Creative Commons)

**EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU**

**CYFARFODYDD CYHOEDDUS / RHITHIOL**

**Y GYMANFA GYFFREDINOL**
**7-9 Gorffennaf, 2025**
**Eglwys Gloddaeth, Llandudno**

**DYDD LLUN, 7 GORFFENNAF**

**4:00pm**

**GWASANAETH CYMUN A CHOFFÂD**
**I Bregethu: Parchg. Robert O. Roberts, BSc, BD, Morfa Nefyn**

**5:15pm**

**ADDOLIAD A DATHLIAD O'N GWEINIDOGAETH A'N CENHADAETH:**
**O dan arweiniad Band a'r Ysgrifennydd Cyffredinol**

**DYDD MAWRTH, 8 GORFFENNAF**

**11:30am**

**DARLITH Y GYMDEITHAS HANES**
**Darlithydd: Parchg Athro D Densil Morgan, BA, BD, DPhil, DD, FLSW**

**Testun:**
*'Beth sydd gan Emrys ap Iwan i'w ddweud wrth yr unfed ganrif ar hugain?'*

**5:30pm**

**ARAITH YMADAWOL Y LLYWYDD**
**Y Parchg O Aneurin Owen, BD, DipACC, Llansannan**

**TROSGLWYDDO'R LLYWYDDIAETH**
**Miss Glynis M Owen, BA, Caerdydd**

**DYDD MERCHER, 9 GORFFENNAF**

**11:30am**

**Y DDARLITH DAVIES**

**Darlithydd: Parchg Eleri Edwards, BA, BTh**

**Testun:**
*'Fy nhaith mewn cenhadu a gweddio'*

**YR HOLL GYFARFODYDD I'W CYNNAL YN DDWYIEITHOG AC YN RHITHIOL**
**Cyfeirnod: 894 6342 9647 Passcode: 907057**

# O'r byd a'r betws

## Iran a breuder ein byd

Prin fod modd i'r rhelyw ohonom amgyffred sut mae gwleidyddiaeth fyd-eang yn gweithio. Bydd blaenoriaethau a dyheadau gwledydd unigol yn chwilio am fanteision economaidd dros wledydd eraill, gan geisio sicrhau mantais i'w trysorlysoedd eu hunain. Mae datganiadau Mr Trump dros y chwe mis diwethaf wedi mynnu sylw holl wledydd byd, wrth iddo hawlio bod yr Unol Daleithiau wedi bod ar eu colled yng nghyd-destun y farchnad â gwledydd byd. Bu ei rethreg wrth drafod pob gwlad yn ddirmygus, hyd yn oed yn haerllug, heb ddeall hanfod geiriau fel tegwch a chyfiawnder. Cyhoeddwyd fod y wlad fwyaf grymus yn y byd eisiau mwy o rym, a'r economi gryfaf yn y byd eisiau mwy o gyfoeth. Bydd hyn yn golygu fod gwledydd eraill yn gwanhau ac yn dlotach o'r herwydd.

Bu ei drafodaethau parthed y rhyfel rhwng Rwsia ac Wcráin yn fodd o chwilio am gyfleoedd i'r Unol Daleithiau elwa'n economaidd wrth drafod heddwch yn y gyflafan arswydus honno, ac roedd ei gynigion i ddatrys y rhyfel erchyll yn Gaza yn ymdrech i gywain manteision i'w goffrau ei hun. Prin y bu iddo ddangos cydymdeimlad gyda thrigolion llawr gwlad Wcráin na Gaza. Cytundebau masnachol yw popeth iddo. Mae'n rhyfedd, onid yw, iddo oreuro ei ddatganiadau o ddiolchgarwch i bawb, gan gyfeirio at fendith Duw, am lwyddiant yr ymosodiadau ar dair o ganolfannau niwclear Iran. Dyma'n union ei rethreg wrth hawlio mai ewyllys Duw a'i harbedodd, pan saethwyd ato yng nghyfnod yr ymgyrchu yn yr etholiad arlywyddol y llynedd. Prin oedd y sôn am y sawl a fu farw oherwydd y fwled a saethwyd tuag ato.

Mae'n haws dilyn ymresymiad Mr Netanyahu yn ymosod ar beiriant rhyfel yn Iran, nid bod hynny'n ffordd o sicrhau gwir heddwch yn y Dwyrain Canol chwaith. Nid oes modd i ni gyfiawnhau hyn. Teyrnasiad ar sail ofn yw meddylfryd felly, gyda'r trechaf yn filitaraidd yn gosod amodau heddwch. Onid felly y bu hi erioed? Bydd pob rhyfel yn chwalu a lladd. Bydd y lluniau a rennir o Gaza, Wcráin ac Iran yn dangos adeiladau wedi'u dymchwel a theuluoedd yn galaru. Onid adwaith y sawl sy'n darllen y deuydd y wasg neu'n edrych ar adroddiadau'r cyfryngau gweledol, mewn gwledydd digyswllt, fydd crychu wyneb, twt-twtian yn ddideimlad a throi i'r dudalen nesaf yn y papur neu droi'r teledu i sianel arall a gwylio opera sebon neu rywbeth yr un mor ddibwys?

Gallwn gyffredinoli drwy ddweud fod gwleidyddiaeth ac economïau byd yn frau ac ansefydlog, ac y bydd y proffwydi tywydd gwleidyddol yn cynnig math o ddansoddiad posibl, fel pe bai hynny'n grefft hollbwysig. Mae pob rhyfel yn gadael chwalfa yn ei sgil, a bydd yr unigolion galarus hynny yn byw fel ffoaduriaid yn eu gwledydd eu hunain, tra bydd ffocws y cyfryngau newyddiadurol yn troi at y digwyddiad nesaf. Beth bynnag fydd canlyniad y stormydd erchyll hyn, bydd angen cymorth ar bob cymuned i ailadeiladu, nid yn unig y cartrefi, ond y strwythurau cymdeithasol sydd wedi eu chwalu. Tu hwnt i hynny, bydd angen cymorth i'r amddifad a'r gorthrymedig i ddarganfod eu bywydau eto.

Beth a wnawn ni? Wrth gwrs, bydd modd cyfrannu at yr apeliadau dyngarol, a gallwn weddïo am heddwch wrth ddarllen adroddiadau'r papurau newydd, neu wylio'r bwletinau teledu. Gallwn godi sgyrsiau gyda'n cyfeillion a'n cydnabod a dangos cydymdeimlad gyda'r rhai y mae eu byd a'u bywydau wedi'u chwalu. Mae estyn dwylo dros y môr yn dechrau gyda'n dwylo ni, drwy gyfrannu'n ariannol, drwy weddïo'n ddifrifol a dwys, a thrwy uniaethu â'r dioddefwyr a'r galarwyr ar bob ochr i'r rhyfeloedd hyn.

Gweddïwn:
Drugarog Dduw, cyflwynwn ger dy fron y dioddefwyr sy'n byw ac yn ofni y gall y taflegrau rhyfel chwalu eu cymdogaethau'n fwyfwy yn ystod y dyddiau nesaf. Eiriolwn dros y bobl hyn ynghanol eu harswyd a'u hofnau. Gweddïwn am heddwch yn y gwledydd sy'n profi rhyfel nawr, ac y gwêl y filitariaeth a gwleidyddion pob gwlad anfadwaith dinistriol pob taflegryn. Deisyfwn lwyddiant i'r ewyllys gymodlon ym mhob gwlad, ac y daw ysbryd y Samariad Trugarog i gerdded yr heolydd a welodd anfadwaith y treiswyr oll. Yn enw Iesu. Amen.

*Denzil I. John*


Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Henaduriaeth Arfon

**Cydlynydd pontio rhwng eglwysi ac ysgolion cynradd (Cydlynydd Eg-sgol) ardal Is-Gwyrfai (Groeslon/Llanwnda yn bennaf, Gwynedd)**

**Oriau:** 35 awr yr wythnos
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
**Cyflog:** Band 29–33 (£30,949–£32,859) ar raddfa cyflog EBC a bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC

**Lleoliad:** Gweithio hybrid, hyblyg: gall fod yn gyfuniad o leoliadau megis eglwys benodol, ystafell gymunedol, wrth ddesg mewn ysgol neu gweithio o adref. Bydd gofyn ichi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.
Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
Ffôn: 02920627465

**Dyddiad cau: 25 Gorffennaf, 4pm**

# Walter Brueggemann yn addoli

Roedd yn braf gweld *Cenn@d* (11 Mehefin), trwy erthygl Guto Prys ap Gwynfor, yn rhoi sylw i farwolaeth yr Athro a'r diwinydd Walter Brueggmann yn 92 oed ar 4 Mehefin wedi oes faith a chyfraniad aruthrol (dros 100 o gyhoeddiadau – 40 yn gyfrolau swmpus) i'r ffydd Gristnogol. Roedd ymhlith y mwyaf o'r diwinyddion a bontiodd ddwy ganrif. Ond fel y dywedodd Guto roedd ei gyfraniad yn llawer mwy na disgleirdeb ei ysgolheictod. Cyflwynodd a dehonglodd y proffwydi a'u neges radical i'r graddau iddo ddod yn llais proffwyd i'w oes – y gwir yn erbyn y grymus (*truth to power*), a'r Gair sy'n dinistrio'r graig.

Roedd Walter Brueggmann yn llawer mwy nag ysgolhaig. Fe gafodd ef a'i frawd eu hordeinio gan eu tad, oedd yn Almaenwr, ac er na chafodd Walter ofal eglwys bu'n gofalu am eglwys fechan United Church of Christ, lle roedd yn addoli'n gyson. Roedd hynny mor bwysig iddo ac fe fyddwn yn barod i ddweud efallai'n bwysicach na'i waith fel Athro ac academydd.

Yn y ddau goleg lle bu'n gwasanaethu, Eden a Colombia, yr oedd yn rhan o draddodiad y colegau i offrymu gweddi cyn dechrau'r ddarlith. Fe gafodd nifer o'm cenhedlaeth innau yr un profiad. Roedd hynny'n bwysig iawn i Brueggmann, ond yr oedd y weddi draddodiadol, sef 'Bydded ymadroddion fy ngenau a myfyrdod fy nghalon ...' yn gwbwl annigonol iddo. Roedd am i'r weddi ar y dechrau, neu weithiau ar y diwedd, fynegi grym a goleuni'r neges. Byddai paratoi darlith yn golygu paratoi gweddi fyddai'n daearu'r Gair yng nghenhadaeth yr eglwys ac yn efengyl i'r dydd. Yn ddiweddarach, fe fyddai'n caboli, yn cywiro ac yn cynllunio'r weddi er mwyn ei chyhoeddi mewn cyfrol neu gylchgrawn at ddefnydd addoli. Wn i ddim faint o'r gweddïau a gyhoeddwyd, ond mae gen i ddwy gyfrol ohonynt ac maent yn atodiad allweddol i sawl rhan o'r Beibl a thymhorau'r eglwys. Er mai'r Hen Destament oedd ei faes arbenigol, mae'r gweddïau'n cynnwys holl gyfoeth y Gair.




Dyma'r cyfrolau sy'n ganolog i weledigaeth broffwydol Brueggmann y byddai Dietrich Bonhoeffer ei hun wedi cael ei galonogi wrth eu darllen yn ei gell. Roedd Brueggmann yn credu mai 'y ffordd yr ydym yn gweddïo ac yn addoli yw'r ffordd yr ydym yn credu'. Cyfrol sy'n cyfoethogi ac yn gwreiddio ein cred yn ein haddoli yw'r Beibl; felly y daeth y Beibl i fod ac felly y mae'n parhau'n air byw. Dyna pam na ddylai ein haddoli fyth fod yn ddiflas nac yn unffurf, nac yn taro yr un tant yn barhaus, ond yn hytrach yn adlewyrchu 'y stori fawr gyfan' y rhoddodd Brueggmann ei fywyd iddi.

***Tu hwnt i'm cylch cysurus***
(Darllen Jeremeia 23)

Yr ydym ym mhlith y rhai a alwyd –
wedi clywed ac wedi ymateb.
Yr wyt wedi ein cyrraedd
ym mannau dwfn ein bywyd
ac mewn ufudd-dod, fe dystiwn
i'r gwirionedd am ein dynoliaeth fregus.

Diolchwn am yr alwad –
am faich yr alwad
sy'n llawn risg,
am lawenydd y geiriau a roddwyd i ni
gan dy ysbryd bywiog, creadigol
ac am y newydd a ddaw weithiau o'n geiriau.

Yr ydym wedi bod
yng nghyngor Dy ysbryd sy'n galw
ac felly fe wyddom rywfaint
o'r gwirionedd sydd i'w ddatgan.

Ond yr ydym hefyd yn llawn
o'n dychymyg ein hunain,
ac weithiau mae ein dychymyg
yn adlewyrchu ein llwfrdra,
ein parodrwydd i blesio,
a'n hawydd am hunan-les.

Yr ydym, yn aml iawn,
yn gymysg oll i gyd
o'r gwir broffwyd i'r llais anwadal,
o'th alwad am gyfiawnder
a'n dyhead ninnau am lonyddwch.

Dyma ni, felly, fel yr ydym,
yn gymysg, ond yn ffyddlon,
yn gyfaddawd, ond yn unplyg,
yn ansicr, ond yn driw i Ti.

Defnyddia ni a'n doniau
er mwyn Dy newydd-deb
sy'n gwthio tu hwnt i unrhyw beth
y gallwn ei ddychmygu na'i ddweud;
yr ydym yn diolch am y geiriau a roddir i ni,
ond yn diolch mwy am y Gair
sy'n dod yn gnawd yn ein plith.

Walter Brueggmann, o'r gyfrol *Prayers for a privileged people* (Abingdon Press, 2008)

*Pryderi Llwyd Jones*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru